**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

a) **Cyffredinol**
Mae Pwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau wrth gynnal digwyddiadau trwyddedadwy, a bydd yn gwneud ei orau glas i gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol yn ystod unrhyw ddigwyddiad. Gwneir cynlluniau diogelwch (a lle bo angen, Cynlluniau Rheoli Traffig), gan gynnwys asesiad risg tân/digwyddiad ar gyfer pob digwyddiad.

b) **Atal troseddau ac anhrefn**
Mae'r digwyddiadau sy'n dod dan y drwydded hon yn rhai cymunedol, gyda chynulleidfa gymysg yn gyffredinol. Bydd stiwardiaid ar gael ymhob digwyddiad, a bydd unrhyw rai sydd, ym marn y trefnydd, dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau i'r fath raddau fel bod y stiwardiaid yn barnu bod angen, yn cael eu tywys oddi yno. Os bydd unrhyw sefyllfa'n codi sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y trefnwyr, cysylltir â'r Heddlu a gofynnir iddyn nhw ddod draw i ddatrys y mater. Bydd y stiwardiaid yn cadw golwg am unrhyw ymddygiad sy'n debygol o arwain at drosedd neu anhrefn. Pan fydd digwyddiad yn cynnwys stondinau a/neu farrau, mae'r rhai sy'n gyfrifol wedi cael cyfarwyddyd i beidio â gwerthu alcohol i rai'n sy'n feddw, treisgar, cwerylgar neu afreolus mewn unrhyw ffordd. Gofynnir iddyn nhw adael, a rhoir gwybod i'r Heddlu os oes angen.

c) **Diogelwch cyhoeddus**
Gwneir cynlluniau diogelwch (a lle bo angen, Cynlluniau Rheoli Traffig), gan gynnwys asesiad risg tân/digwyddiad ar gyfer pob digwyddiad mawr. Mae gan Bwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron yswiriant trydydd parti ac indemniad digonol. Bydd diogelwch cyhoeddus yn brif ystyriaeth yn ystod unrhyw ddigwyddiad a drefnir gan Bwyllgor Gwelliannau Tref Aberystwyth, neu unrhyw ddigwyddiad y mae ynghlwm ag ef fel partner. Cynhelir asesiad risg meddygol ar gyfer pob digwyddiad, ac yn dibynnu ar y lefel sydd ei angen, cynigir y ddarpariaeth yn fewnol neu trwy gontractwr allanol. Pan fydd digwyddiadau'n denu stondinwyr, rhaid iddynt fod ag yswiriant atebolrwydd ar gyfer eu cynnyrch a'r cyhoedd, a byddant yn atebol am y gweithgareddau o fewn eu stondinau.

d) **Atal niwsans cyhoeddus**
Rydym yn rhagweld mai nifer cymharol fach o ddigwyddiadau fydd yn dod o dan y drwydded hon, ar gyfartaledd, yn ystod unrhyw flwyddyn galendr. Bydd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ystod y dydd, ond os cynhelir digwyddiadau cerddoriaeth neu ddigwyddiadau eraill all fod yn swnllyd o bryd i'w gilydd, bydd yn rhaid iddynt ddod i ben am 10.00pm. Gyda digwyddiadau o'r fath, bydd y trefnwyr yn rhoi gwybod i'r trigolion lleol am y posibilrwydd o niwsans sŵn, gan weithio'n agos â'r rhanddeiliaid i liniaru'r niwsans posib hwn.

Bydd pob ardal adloniant yn cael ei chyfyngu i 3 digwyddiad cerddorol yn ystod y flwyddyn galendr, sy'n para 7 awr ar y mwyaf (defnyddir diffiniad Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd o ddigwyddiad cerddorol, sef cyngerdd neu gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio o natur debyg a berfformir gan artist unigol neu grŵp o artistiaid o flaen cynulleidfa fyw). *Yn dilyn newidiadau dadreoleiddio mae'r amod yma ond yn berthnasol pan bod y cynulleidfa dros 500.*

**e) Amddiffyn plant rhag niwed**

Ni chaniateir gwerthu alcohol ymhob digwyddiad, a gwneir penderfyniad ynghylch hyn fesul digwyddiad unigol, er enghraifft, ni werthir unrhyw alcohol yng Nghae Sgwâr ar Ddiwrnod y Carnifal. Bydd y stiwardiaid mewn digwyddiadau o'r fath yn ymwybodol o'r peryglon posib, ac fe'u cynghorir i ymyrryd mewn unrhyw sefyllfa a allai achosi niwed i blant. Pan fydd digwyddiad yn denu stondinwyr neu far, byddant yn cael cyfarwyddyd i lynu at y cynllun Challenge 25, gan osod arwyddion i'r perwyl hwnnw h.y. rhaid i unrhyw un sydd dros 18 oed ond sy'n edrych dan 25 oed ddangos dogfen adnabod dderbyniol os ydyn nhw am brynu alcohol. Os oes unrhyw amheuaeth, byddant yn cael cyfarwyddyd i beidio â'i werthu.
Rhag-hysbysiad i'w gyflwyno i'r Awdurdod Lleol (o leiaf 10 diwrnod cyn y digwyddiad) ynghylch lleoliad unrhyw 'farrau' sy'n gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle trwyddedig. Hefyd, bydd y cynllun yn nodi manylion ardal a neilltuir ar gyfer yfed alcohol.
Ni fydd unrhyw alcohol yn cael ei werthu yn yr awyr agored ar ôl 2200 ym mhob ardal (ac eithrio'r tri digwyddiad cerddorol a gynhelir yn ystod pob blwyddyn galendr yng Nghae Sgwâr).

**Atodiad 3 – Amodau yn atodedig yn sgil gwrandawiad gan yr awdurdod trwyddedu/cyfarfod cyfryngu**

**Cytundebau ychwanegol yn dilyn ymatebion gan Diolgelwch yr Amgylchedd a'r Heddlu a cytunwyd han Is-Bwyllgor Trwyddedu ar y 23ain Ebrill 2018.**

Bydd pob ardal adloniant yn cael ei chyfyngu i 3 digwyddiad cerddorol yn ystod y flwyddyn galendr, sy'n para 7 awr ar y mwyaf (defnyddir diffiniad Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd o ddigwyddiad cerddorol, sef cyngerdd neu gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth wedi'i recordio o natur debyg a berfformir gan artist unigol neu grŵp o artistiaid o flaen cynulleidfa fyw). *Yn dilyn newidiadau dadreoleiddio mae'r amod yma ond yn berthnasol pan bod y cynulleidfa dros 500.*

Rhag-hysbysiad i'w gyflwyno i'r Awdurdod Lleol (o leiaf 10 diwrnod cyn y digwyddiad) ynghylch lleoliad unrhyw 'farrau' sy'n gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle trwyddedig. Hefyd, bydd y cynllun yn nodi manylion ardal a neilltuir ar gyfer yfed alcohol.

Ni fydd unrhyw alcohol yn cael ei werthu yn yr awyr agored ar ôl 2200 ym mhob ardal (ac eithrio'r tri digwyddiad cerddorol a gynhelir yn ystod pob blwyddyn galendr yng Nghae Sgwâr).

